Cyngor Sir Ceredigion

# Gwybodaeth i Rieni am Ysgolion Ceredigion

T. Gareth Jones
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol

Rhagfyr 2007

**Cyngor Sir CEREDIGION**
**ADRAN ADDYSG GWASANAETHAU CYMUNEDOL**
**T. Gareth Jones,** MA. MPhil
Cyfarwyddwr
Director

**CEREDIGION County Council**
**DEPARTMENT OF EDUCATION & COMMUNITY SERVICES**
Swyddfa'r Sir, Glan-y-Môr, Aberystwyth, SY23 2DE
County Offices, Marine Terrace, Aberystwyth, SY23 2DE
☎ 01970 633656
Fax 01970 633663

## Llythyr oddi wrth y Cyfarwyddwr

Rhagfyr, 2007

Annwyl Riant/Warcheidwad

Yn unol â'r gyfraith, mae'n ofynnol ar bob Awdurdod Addysg Lleol i roi cyfle i rieni/warcheidwaid fynegi pa ysgol fyddai orau ganddynt i'w plant ei mynychu. Dyma un o'r penderfyniadau pwysicaf a wnewch ar ran eich plentyn.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi amlinelliad o bolisïau Awdurdod Addysg Ceredigion ac fe'i paratowyd i gynorthwyo Rhieni. Gallai Llywodraethwyr a Phrifathrawon ddarparu manylion ychwanegol sy'n ymwneud â'u hysgolion hwy.

Fel rhiant/gwarcheidwad, mae gennych hawl i ddisgwyl addysg dda ar gyfer eich plentyn. Pwysig hefyd yw eich diddordeb chi yng ngwaith ysgol eich plentyn, a bydd hynny'n annog yr ysgol ac yn hyrwyddo ymdrechion yr athrawon. Mae nifer o ysgolion yn meddu ar Gymdeithas Rhieni neu Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Gallwch ymuno â'r rhain gan ennill y cyfle i ymwneud â gweithgareddau'r ysgol ac â'r Gwasanaeth Addysg yng Ngheredigion.

Efallai y byddai o ddiddordeb gennych i wybod bod cynrychiolwyr y rhieni yn gwasanaethu ar Gorff Llywodraethol yr Ysgol, ac etholir y rhain gan y rhieni eu hunain, fel arfer bob pedair blynedd. Bob blwyddyn byddwch yn derbyn adroddiad ysgrifenedig am y gwaith a gyflawnwyd gan Gorff Llywodraethol yr Ysgol, a chynhelir cyfarfod arbennig er mwyn rhoi cyfle i rieni drafod yr Adroddiad Blynyddol hwn gyda'r Llywodraethwyr.

Gobeithio y bydd eich plentyn yn ymgartrefu'n rhwydd yn ei h/ysgol newydd ac yn elwa ar yr amryfal gyfleoedd a gynigir iddo/i.

Hyderaf y bydd y llyfryn hwn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i chi ac y bydd yn hybu gwell dealltwriaeth rhwng y rhieni/gwarcheidwaid a'r gwasanaeth addysg yn gyffredinol.

Yn gywir

T Gareth Jones
*Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol*

# *Cynnwys*


| | | TUD |
|---|---|---|
| **RHAN I: GWYBODAETH GEFNDIROL** | | |
| **CYFLWYNIAD** | | **1** |
| **GWYBODAETH BELLACH** | | **2** |
| **Y GWASANAETH ADDYSG YNG NGHEREDIGION: AMLINELLIAD CRYNO** | | **3** |
| **MANYLION DEFNYDDIOL** | | |
| • | Beth am dymhorau ysgol? | **4** |
| • | Beth a olygir gan grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol? | **5** |
| **RHAN II: MYNEDIAD DISGYBLION I YSGOLION** | | |
| **CYFRIFOLDEBAU'R RHIENI** | | |
| • | A oes rhaid i fy mhlentyn dderbyn addysg lawn amser? | **6** |
| • | Pwy sydd â chyfrifoldebau rhieiniol am y plentyn? | **6** |
| **MATHAU O YSGOLION** | | |
| • | Beth yw'r gwahanol fathau o ysgolion yng Ngheredigion? | **6** |
| **DEWIS YSGOL** | | |
| • | Pryd gall fy mhlentyn ddechrau ysgol? | **7** |
| • | Erbyn pa ddyddiadau y mae'n rhaid i fy mhlentyn gyrraedd yr oed cywir cyn cael mynd i'r ysgol ac erbyn pryd y mae'n rhaid imi wneud cais? | **7** |
| • | Sut ydw i'n dewis ysgol ar gyfer fy mhlentyn? | **8** |
| • | A oes terfyn ar nifer y disgyblion y gall ysgolion eu derbyn? | **8** |
| • | Pwy sy'n rheoli derbyniadau i ysgolion? | **8** |
| • | Beth os ceir nifer o geisiadau am le mewn ysgol benodol? | **8** |
| • | A oes rhaid i'r Awdurdod Addysg ddarparu lle ar gyfer pob plentyn sy'n dymuno mynychu rhyw ysgol arbennig? | **9** |
| • | A allaf roi fy mhlentyn ar restr aros? | **9** |
| • | A yw'r ysgol yn dewis ei disgyblion? | **9** |
| **ADDYSG FEITHRIN** | | |
| • | A yw'n bosibl i fy mhlentyn tair blwydd oed dderbyn addysg feithrin? | **9** |

**YMUNO Â DOSBARTH DERBYN MEWN YSGOL GYDA DOSBARTH/UNED FEITHRIN**

- A oes rhaid imi wneud cais i drosglwyddo fy mhlentyn o Ddosbarth neu Uned Feithrin i Ddosbarth Derbyn o fewn yr un ysgol? **9**

**YMUNO Â DOSBARTH DERBYN MEWN YSGOLION CYNRADD AR GYFER PLANT 4 OED**

- Pryd gallaf i gyflwyno cais am le i fy mhlentyn mewn Ysgol Gynradd? **9**

**YMUNO AG YSGOL IAU (TREF ABERTEIFI)**

- A oes imi wneud cais i fy mhlentyn fynychu Ysgol Iau ar ôl gorffen mewn Ysgol y Babanod? **10**

**YMUNO AG YSGOL UWCHRADD**

- Pryd dylai fy mhlentyn ddechrau yn yr Ysgol Uwchradd? **10**
- Sut ydw i’n dewis Ysgol Uwchradd ar gyfer fy mhlentyn? **10**
- Faint o ysgolion uwchradd sydd yn y Sir? **10**
- A allaf i ddewis Ysgol Uwchradd arall ar gyfer fy mhlentyn? **10**
- Beth petawn i’n dymuno i fy mhlentyn fynychu Ysgol Gyfun Ddwyieithog Benodedig? **10**

**YMUNO AG YSGOL HEBLAW’R YSGOL LEOL**

- Beth petawn i’n dymuno i fy mhlentyn fynychu ysgol heblaw’r un sy’n gwasanaethu’r ardal yr ydym yn byw ynddi? **11**

**GWRTHODIAD AC APÊL**

- Beth os caiff fy nghais ei wrthod? **11**
- Beth sy’n digwydd os na chaiff fy mhlentyn ei dderbyn i’r ysgol o’m dewis? **11**

**GWYBODAETH FYDD EI HANGEN AR YSGOLION**

- Pa wybodaeth fydd yr ysgol eisiau oddi wrthyf fi? **11/12/13**

## RHAN III: SUT Y CAIFF YSGOLION EU TREFNU A'R HYN A DDYSGIR I'R DISGYBLION – Y CWRICWLWM

### CYFFREDINOL


**ADDYSG GYNRADD**

- Sut y caiff Ysgolion Cynradd eu trefnu? **13**
- Beth yw'r grwpiau blwyddyn ysgol o fewn ysgolion cynradd y Sir? **13**
- Beth a ddysgir i fy mhlentyn yn yr Ysgol Gynradd? **14**

**ADDYSG UWCHRADD**

- Beth a ddysgir i fy mhlentyn yn yr Ysgol Uwchradd? **14/15**

**PROFION AC ARHOLIADAU**

- Beth am arholiadau cyhoeddus? **15**

**IAITH Y DYSGU**

- A oes rhaid i bob plentyn ddysgu Cymraeg a Saesneg? **15/16**
- Beth yw polisi'r Sir ynglŷn â dysgu Cymraeg a Saesneg o fewn ei hysgolion cynradd? **16**
- Beth yw ystyr ysgol Categori 'A' ac ysgol Categori 'B'? **16**
- Beth yw'r egwyddorion ar gyfer addysgu Cymraeg a Saesneg o fewn Ysgolion Uwchradd y Sir? **16/17**

**CREFYDD**

- Beth yw'r sefyllfa ynglŷn â chrefydd mewn ysgolion? **17**

**CWYNION YNGLŶN Â'R CWRICWLWM**

- Beth ddylwn ei wneud os oes gennyf gŵyn ynglŷn â'r cwricwlwm a materion perthynol? **17**

## RHAN IV: ANGHENION ADDYSG ARBENNIG (AAA) A GWASANAETHAU CYNHWYSIANT

### ANGHENION ADDYSG ARBENNIG (AAA)


- Pa ddarpariaethau y gall plentyn ag anghenion arbennig ei ddisgwyl yng Ngheredigion? **17/18**
- Sut caiff anghenion disgyblion ag AAA eu canfod a'u hasesu a sut y darperir ar eu cyfer? **18**
- Beth os bydd angen cefnogaeth a chyngor arnaf ynglyn â darpariaeth AAA fy mhlentyn ? **18**
- Beth os bydd rhaid i fy mhlentyn ag anghenion arbennig deithio i ysgol heblaw'r un lleol? **19**
- Ble gallaf i gael gwybodaeth bellach ynglŷn ag AAA? **19**


### DARPARIAETHAU ERAILL


- Os derbynnir fy mhlentyn i ysbyty, pa gyfleusterau addysg a ddarperir ar ei gyfer yno? **19**
- A oes unrhyw achlysur pryd y mae'r Awdurdod yn darparu addysg gartref? **19**


### SWYDDOGION CYNHWYSIANT ADDYSG


- Beth yw swyddogaeth y Swyddog Cynhwysiant Addysg? **19/20**


## RHAN V: GWYBODAETH ARALL A ALL FOD O DDEFNYDD

### COFNODION


- A oes cofnodion yn cael eu cadw am fy mhlentyn? **20**


### AFIECHYD


- Beth os bydd fy mhlentyn yn sâl ac yn methu â mynd i'r ysgol? **20**


### GWYLIAU YN YSTOD ADEG TYMOR


- A allaf i gymryd fy mhlentyn ar wyliau yn ystod adeg tymor? **20**


### PRYDAU A LLAETH YSGOL


- A oes prydau ar gael ymhob ysgol? **21**
- A allaf i gael prydau ysgol am ddim ar gyfer fy mhlentyn? **21**
- A yw disgyblion yn cael llaeth am ddim yn yr ysgol? **21**

**GRANTIAU DILLAD/CYNHALIAETH**

- A allaf i wneud cais am grantiau ar gyfer gwisg ysgol? **21**
- A allaf wneud cais am lwfans cynhaliaeth? **21**

**EIDDO PERSONOL**

- Beth os cymer fy mhlentyn eiddo personol i'r ysgol? **22**

**CODI TAL AR ADDYSG**

- A fydd rhaid imi dalu am addysg fy mhlentyn? **22**

**CYNGOR GYRFAOL**

- A yw disgyblion yn cael cynnig unrhyw gyngor ar y gyrfaoedd a allai fod yn bosibl? **22**

**DYDDIAD GADAEL YSGOL**

- Pryd caniateir i ddisgyblion adael ysgol? **22**

**CLUDIANT**

- A ddarperir cludiant ysgol am ddim i bob plentyn? **22**

**CRONFEYDD YMDDIRIEDOLAETH**

- A all fy mhlentyn elwa ar gefnogaeth ariannol arall oddiwrth y Sir? **23**

## ATODIADAU

| | | |
|---|---|---|
| **Atodiad 1:** | Datganiad ar Arholiadau Cyhoeddus | **25** |
| **Atodiad 2:** | Codi Tâl am Weithgareddau Ysgol | **25/26** |
| **Atodiad 3:** | Datganiad ar Gludiant o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg | **26/27** |
| **Atodiad 4:** | Y Gwasanaeth Gyrfaoedd | **28** |
| **Atodiad 5:** | Y Gwasanaeth Addysg Gymunedol | **28** |
| **Atodiad 6:** | Cyrff Llywodraethol yr Ysgolion | **28/29** |

# RHAN I: GWYBODAETH GEFNDIROL

## CYFLWYNIAD

Fel rhiant, mae gennych gyfrifoldeb i sicrhau bod eich plentyn yn derbyn addysg addas rhwng 5 ac 16 oed. Mae rhieni mwyafrif llethol y disgyblion yng Ngheredigion wedi penderfynu bod eu plant yn cael eu haddysgu mewn ysgolion a gynhelir gan Awdurdod Addysg Ceredigion.

Rydych am y gorau ar gyfer eich plentyn, felly achubwch bob cyfle i ddysgu cymaint â phosibl ynglŷn â'r hyn a gynigir gan y Gwasanaeth Addysg ac yn fwyaf arbennig, gwnewch yn siŵr eich bod yn darganfod cymaint â phosibl ynglŷn â'r ysgol y dymunwch i'ch plentyn ei fynychu. Bydd llywodraethwyr a staff yr ysgol yn edrych ymlaen at weithio gyda chi a'ch cynorthwyo i ddatblygu potensial eich plentyn. Mae hwythau hefyd am i'ch plentyn dderbyn yr hyn sydd orau iddo/i.

Mae'r llyfryn hwn yn anelu at ddarparu rhieni/gwarcheidwaid ac eraill â gwybodaeth gyffredinol ag addysg gynradd ac uwchradd yng Ngheredigion. Mae'r llyfryn yn cynnwys y manylion sylfaenol ynglŷn â'r ffordd y derbynnir disgyblion i ysgolion a rhai o'r polisïau a'r gefnogaeth a gynigir gan yr Awdurdod Addysg Lleol.

Darperir rhestr o ysgolion cynradd ac uwchradd gyda'r llyfryn hwn.

Bydd gan bob ysgol ar y rhestr hon lawlyfr ysgol ei hun a fydd yn disgrifio'n fanwl yr ysgol, ei nodau a'i threfnyddiaeth. Os oes gennych ddiddordeb i ddysgu mwy am ysgol arbennig, yna gofynnwch i Brifathro/Brifathrawes yr Ysgol am gopi o'r Llawlyfr.

Cyn belled ag y bo modd, mae'r wybodaeth a gynhwyswyd yn y llyfryn hwn yn cyfeirio at ddechrau'r flwyddyn ysgol ym Medi 2008 ac mae'n gywir ar adeg ei gyhoeddi.

## GWYBODAETH BELLACH

### Ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Anogir rhieni i gysylltu ag ysgolion a siarad â phrifathrawon ac i ddarllen llawlyfrau'r ysgolion sydd ar gael gan yr ysgol neu'r Adran Addysg. Os oes angen gwybodaeth neu gymorth pellach arnoch, bydd staff y Swyddfa Addysg yn barod i'ch helpu lle bynnag y bo modd.

Dylid cyfeirio ymholiadau yn ymwneud ag Addysg Gynradd ac Uwchradd at y **Cyfarwyddwr Addysg, Swyddfa'r Sir, Glan-y-Môr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2DE.**

**Rhif Ffôn: 01970 633656.**

Mae trefn derbyniadau i ysgolion wedi newid o'r flwyddyn ysgol 1999-2000 pryd y gofynnir i'r **HOLL** rieni fynegi eu dewis o ysgol(ion) cyn i le mewn ysgol gael ei glustnodi gan y Cyfarwyddwr Addysg.

### Ysgolion Eglwys

Dylid gwneud ymholiadau cyffredinol am Ysgolion Eglwys i'r canlynol:-

**Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru**

Y Parchedig Canon D Evans<br>Cyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth<br>Y Ficerdy<br>Lôn Scarrowscant<br>Hwlffordd<br>SA61 1EP

**Ffôn: (01437) 763170**

**Ysgolion Catholig**

Y Gwir Barchedig Mark Jabalé, OSB<br>Esgob Mynyw<br>Swyddfa Cwrt y Pab<br>Esgobaeth Mynyw<br>115 Heol Walter<br>Abertawe<br>SA1 5LE

**Ffôn: (01792) 644017**

**neu**

Y Chwaer Angela Murray<br>Cyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth<br>Eglwys Rufeinig Gatholig y Santes Fair<br>Heol Undeb<br>Caerfyrddin<br>SA31 3DE

**Ffôn: (01267) 237205**

## Y Gwasanaeth Addysg yng Ngheredigion

# Amlinelliad Cryno

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion sicrhau bod pob plentyn 5-16 oed yn derbyn addysg gymwys lawn amser. Mae rhyw 10,500 o blant yn mynychu ysgolion yr Awdurdod.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cynnal 70 o ysgolion cynradd. Mae tua 60% o ysgolion cynradd yr Awdurdod â 50 neu lai o blant. Yn rhan fwyaf yr ysgolion hyn, Cymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol. Ar lefel uwchradd, mae'r Awdurdod yn hyrwyddo 7 ysgol gyfun sy'n amrywio o ran maint o 330 i 1400 o ddisgyblion. Mae dwy o'r ysgolion hyn yn ysgolion dwyieithog benodedig lle mae nifer sylweddol o'r pynciau yn cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae gan yr Awdurdod amrywiaeth eang o ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion addysg arbennig, gan gynnwys unedau arbennig sydd hefyd ynghlwm wrth ysgolion y brif ffrwd mewn rhai achosion. Yn ogystal â'r cyfleusterau hyn, mae nifer o staff arbenigol yn cynorthwyo i sicrhau bod plant ag anghenion arbennig yn cael eu haddysgu, lle bynnag y bo'n bosibl, mewn ysgolion y brif ffrwd. Telir am rai plant i fynychu sefydliadau arbenigol o fewn a thu allan y Sir.

Nid oes gan yr Awdurdod Addysg gyfrifoldeb mwyach am Golegau Addysg Bellach. Un Coleg o'r fath sydd yng Ngheredigion sef Coleg Ceredigion. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Addysg yn parhau'n gyfrifol am asesu teilyngdod myfyrwyr am gymorth ariannol ar ffurf benthyciadau, grantiau a ffioedd hyfforddiant i fyfyrwyr addysg uwch yn ogystal ag amryw o grantiau dewisol i fyfyrwyr addysg bellach.

Mae Gwasanaeth Addysg Gymunedol Ceredigion yn seiliedig ar yr athroniaeth o gynnig addysg gydol oes i bob aelod o'r gymuned. Mae'r gwasanaeth hwn yn meithrin cysylltiadau ag ysgolion a cholegau i ddarparu gwaith ieuenctid, addysg oedolion, sgiliau sylfaenol i oedolion, cyfleoedd i ddysgu'r iaith Gymraeg, hyfforddiant, cyfleusterau chwaraeon a hamdden a nifer o brosiectau datblygu cymunedol. Yn ychwanegol, mae sefydliad addysg gymunedol yn seiliedig ym Mhenparcau; darperir amrywiaeth eang o weithgareddau i'r ifanc a'r gymuned gan Theatr Felinfach; ceir cyfres o glybiau ieuenctid yn Aberteifi, Aberaeron, Llanbedr Pont Steffan a Chei Newydd a nifer o ganolfannau chwaraeon/hamdden o fewn y Sir.

Mae Awdurdod Addysg y Sir nid yn unig yn ymwneud â'r hyn sy'n digwydd yn y dosbarth, mae hefyd yn darparu pob math o wasanaethau cysylltiol megis cludiant a chiniawau ysgol, glanhau, hyfforddiant, adeiladau, datblygiad, cyngor addysgol, cefnogaeth i lywodraethwyr a'r gwasanaethau llyfrgell ysgol. Er na fydd y Gwasanaeth Gyrfaoedd yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan Gyngor Sir Ceredigion, bydd yr Awdurdod Addysg yn parhau i gefnogi cyngor gyrfaoedd drwy'r Gwasanaeth Addysg. Ffurfiwyd Gyrfaoedd Cymru fel gwasanaeth annibynnol sy'n cynnig cyfarwyddyd yngly^n â gyrfaoedd yng Ngheredigion.

Mae'r Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol, sy'n cynnwys y Gwasanaeth Addysg, Diwylliant a Hamdden, yn cyflogi tua 2,000 o bobl, a dyma adran fwyaf y Cyngor Sir gyda chyllideb flynyddol o fwy na £56.3 miliwn gyda £52.3 miliwn (ym 2007/2008) ohoni wedi'i chyfeirio at Addysg. Lleolir pencadlys Gwasanaeth Addysg Ceredigion yn yr **Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol, Swyddfa'r Sir, Glan-y-Môr, Aberystwyth** ac mae'n darparu man cyswllt i rieni, disgyblion, myfyrwyr, aelodau etholedig, staff a'r cyhoedd yn gyffredinol. Yn ogystal â'r cyngor a ddarperir gan yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol ynglŷn â'r gwasanaethau a nodwyd uchod, lleolir nifer o asiantaethau cefnogol yno hefyd, megis ymgynghorwyr, seicolegwyr addysg a swyddogion lles.

# Manylion Defnyddiol

## Beth am dymhorau ysgol?

Mae'r flwyddyn ysgol yn rhedeg o 1 Medi o un flwyddyn i 31 Awst y flwyddyn ganlynol ac mae'n cynnwys tri thymor. Mae dyddiadau dechrau a gorffen y tymhorau ysgol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ond yn fras, maent fel a ganlyn:

**Tymor yr Hydref - Medi i Ragfyr**
**Tymor y Gwanwyn - Ionawr i Fawrth/Ebrill** (gan ddibynnu ar bryd y dethlir y Pasg)
**Tymor yr Haf - Ebrill i Orffennaf**

Rhennir pob tymor yn ddau gan wythnos o wyliau hanner tymor.
Fel arfer, fe'u cynhelir yn Hydref, Chwefror a Mai/Mehefin.

## Y Flwyddyn Ysgol 2008/2009

| TYMOR | DECHRAU | HANNER-TYMOR | | DIWEDD | NIFER Y DIWRNODAU YSGOL |
|---|---|---|---|---|---|
| | | DECHRAU | DIWEDD | | |
| **Hydref 2008** | Dydd Mercher 3 Medi, 2008 | Dydd Llun 27 Hydref, 2008 | Dydd Gwener 31 Hydref, 2008 | Dydd Gwener 19 Rhagfyr, 2008 | **73** |
| **Gwanwyn 2009** | Dydd Mawrth 6 Ionawr, 2009 | Dydd Llun 16 Chwefror, 2009 | Dydd Gwener 20 Chwefror, 2009 | Dydd Gwener 3 Ebrill, 2009 | **59** |
| **Haf 2009** | Dydd Llun 20 Ebrill, 2009 | Dydd Llun 25 Mai, 2009 | Dydd Gwener 29 Mai, 2009 | Dydd Mawrth 21 Gorffennaf, 2009 | **61** |
| | | | | **CYFANSWM** | **193** |

Gall y dyddiadiau hyn newid.

(i) **Caiff Dydd Mawrth, 2 Medi, 2008 a Dydd Llun, 5 Ionawr, 2009** eu dynodi fel diwrnodau HMS ar gyfer pob Ysgol Gynaledig. Yr ysgolion unigol fydd yn pennu'r 3 diwrnod HMS arall.

(ii) Bydd yr holl ysgolion yn cau ar ddydd **Llun, 4 Mai, 2009** ar gyfer Gŵyl Banc Calan Mai.

## Beth a olygir gan grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol?

Mae dilyniant disgybl drwy flynyddoedd addysg orfodol yn cael ei rannu i bedwar cyfnod allweddol. Mae'r cyfnodau allweddol yr un fath ni waeth beth yw patrwm lleol trefniadaeth ysgol. Mae'r tabl isod yn dangos y cyfnodau allweddol ar gyfer yr oedrannau plant a'r grwpiau blynyddoedd cyfatebol.

| CYFNOD ALLWEDDOL | DISGRIFIAD O GRWPIAU BLWYDDYN | OED MWYAFRIF Y DISGYBLION AR DDIWEDD BLWYDDYN YSGOL | |
|---|---|---|---|
| | Meithrin | - rhan amser<br>- llawn amser | 3 |
| | Derbyn | - Blwyddyn $1^{af}$ **Babanod** | |
| CA1 | B1<br>B2 | - Babanod<br>- Babanod | 5 - 6<br>6 - 7 |
| CA2 | B3<br>B4<br>B5<br>B6 | - Blwyddyn $1^{af}$ Iau<br>- Iau<br>- Iau<br>- Iau | 7 - 8<br>8 - 9<br>9 - 10<br>10 - 11 |
| CA3 | B7<br>B8<br>B9 | - Blwyddyn $1^{af}$ Uwchradd<br>- $2^{ail}$ flwyddyn Uwchradd<br>- $3^{edd}$ flwyddyn Uwchradd | 11 - 12<br>12 - 13<br>13 - 14 |
| CA4 | B10<br>B11 | - $4^{edd}$ flwyddyn Uwchradd<br>- $5^{ed}$ flwyddyn Uwchradd | 14 - 15<br>15 - 16 |
| Chweched Dosbarth (CA5) | B12<br>B13 | - Blwyddyn $1^{af}$ / Chweched Isaf<br>- $2^{ail}$ flwyddyn / Chweched Uchaf | 16 - 17<br>17 - 18 |

**B** - Blwyddyn

Rhaid nodi y gall rhai plant gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau gyda phlant o grwp oedran gwahanol. Gall Prifathrawon ateb ymholiadau ynglŷn â hyn.

## RHAN II: MYNEDIAD DISGYBLION I YSGOLION

### Cyfrifoldebau'r Rhieni

**A oes rhaid i fy mhlentyn dderbyn addysg lawn amser?**

**Oes.** Yn ôl y ddeddf mae'n rhaid i rieni sicrhau bod eu plentyn yn derbyn addysg amser llawn o ddechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn bump oed nes iddo/iddi gyrraedd oed gadael yr ysgol yn 16. Gellir dwyn y rhieni gerbron llys barn os na fyddant yn cwrdd â gofynion y ddeddf yn y mater hwn.

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir sicrhau bod pob plentyn 5-16 oed yn derbyn addysg lawn amser a phriodol.

**Pwy sydd â chyfrifoldebau rhieniol am y plentyn?**

Dylech fod yn ymwybodol, yn dilyn newidiadau yn y gyfraith yn ymwneud â phlant a wnaed o dan Ddeddf Plant 1989 ac a ddaeth i rym ym mis Hydref 1991, bod angen i ysgolion wybod pwy sydd â'r "cyfrifoldeb rhieniol" am bob plentyn. Diben hyn yw sicrhau bod yr awdurdod priodol yn cael ei roi pan fydd angen caniatâd rhiant ar yr ysgol. Bydd hefyd yn sicrhau bod personau sydd â chyfrifoldeb rhieniol ond sydd heb fod yn byw gyda'r plentyn yn derbyn adroddiadau ysgol ac yn cael cyfle i gymryd rhan yn addysg y plentyn.

- Mae gan famau gyfrifoldeb rhieniol bob amser.
- Mae gan dadau yn ogystal gyfrifoldeb rhieniol am blentyn, os oeddynt yn briod â'r fam adeg geni'r plentyn, (a bydd hyn yn parhau ar ôl unrhyw ysgariad, gwahanu neu ailbriodi) hyd yn oed os yw'r plentyn yn byw ar wahân iddynt.
- Gall tadau di briod, llys rieni, perthnasau a phersonau eraill dderbyn cyfrifoldeb rhieniol ond ni fyddant yn ei gael yn awtomatig.

Gofynnir i rieni gydweithredu â staff yr ysgol trwy ddarparu manylion ar gyfer yr ysgol am y personau sydd â'r cyfrifoldeb rhieniol am ddisgybl. Dylid hysbysu'r ysgol am unrhyw newidiadau yn y trefniadau a wnaed ar gyfer cyfrifoldeb rhieniol neu ar gyfer gofalu am y plentyn o ddydd i ddydd.

Mae unrhyw gyfeiriad at rieni yn y llyfryn hwn yn ymestyn i gynnwys unrhyw un sydd â chyfrifoldeb am ddisgyblion.

### Mathau o Ysgolion

**Beth yw'r gwahanol fathau o ysgolion yng Ngheredigion?**

Mae rhan fwyaf yr ysgolion yng Ngheredigion yn cael eu cynnal gan Gyngor Sir Ceredigion trwy gyfrwng Awdurdod Addysg Ceredigion. Mae'r rhain yn cynnwys un ysgol fabanod, un ysgol iau (y ddwy yn nhref Aberteifi), 68 ysgol gynradd a saith ysgol uwchradd. Ymhlith y rhain, ceir dwy ysgol gynradd wirfoddol gymorthedig o fewn y Sir sef, Ysgol Gatholig Padarn Sant, Aberystwyth (Yr Eglwys Babyddol), ac Ysgol Wirfoddol Gymorthedig Llanwenog (Yr Eglwys yng Nghymru).

## Dewis Ysgol

### Pryd gall fy mhlentyn ddechrau'r ysgol?

Yng Ngheredigion, gellir derbyn plentyn i ysgol gynradd ar ddechrau'r tymor yn dilyn ei b/phen-blwydd yn 4 oed. Os oes dosbarth meithrin ar gael yn yr ysgol, gall plant ymuno â'r ysgol ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed - fel arfer, ar sail ran amser. Fodd bynnag, yn gyfreithiol nid oes rhaid i blant ddechrau ysgol hyd nes eu pen-blwydd yn bump oed.

Bydd plant yn dechrau eu haddysg uwchradd yn y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn 11 oed.

**Noder:** Mae'n rhaid i rieni wneud cais am le yn yr ysgol/ion yr hoffent ddanfon eu plentyn iddo. Nodir y manylion ynglŷn â phryd i wneud cais ar y grid isod. Mae'r ffurflenni cais ar gael or ysgolion neu'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol.

**Erbyn pa ddyddiadau y mae'n rhaid i fy mhlentyn gyrraedd yr oed cywir cyn cael mynd i'r ysgol ac erbyn pryd y mae'n rhaid imi wneud cais?**

| Math o Ysgol | Oedran y Plentyn | Ddyddiad y mae'n rhaid cyrraedd yr oed priodol | Cyflwyno Cais Erbyn | Tymor ar gyfer Derbyn |
|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Cynradd gyda Dosbarth Meithrin | 3 blwydd oed | 31Rhagfyr 2008<br>31 Mawrth 2009<br>31 Awst 2009<br>31 Rhagfyr 2009<br>31 Mawrth 2010<br>31 Awst 2010 | 30 Ebrill 2008<br>30 Ebrill 2008<br>30 Ebrill 2008<br>30 Ebrill 2009<br>30 Ebrill 2009<br>30 Ebrill 2009 | Gwanwyn 2009<br>Haf 2009<br>Hydref 2009<br>Gwanwyn 2010<br>Haf 2010<br>Hydref 2010 |
| Ysgolion Babanod a Chynradd heb Ddosbarth Meithrin | 4 blwydd oed | 31 Rhagfyr 2008<br>31 Mawrth 2009<br>31 Awst 2009<br>31 Rhagfyr 2009<br>31 Mawrth 2010<br>31 Awst 2010 | 30 Ebrill 2008<br>30 Ebrill 2008<br>30 Ebrill 2008<br>30 Ebrill 2009<br>30 Ebrill 2009<br>30 Ebrill 2009 | Gwanwyn 2009<br>Haf 2009<br>Hydref 2009<br>Gwanwyn 2010<br>Haf 2010<br>Hydref 2010 |
| Dosbarth Derbyn yr Ysgol Fabanod neu Gynradd lle ceir ceir Dosbarth/Uned Feithrin gysylltiol | 4 blwydd oed | 31 Awst | 1 Mai | Hydref |
| Ysgol Iau (Tref Aberteifi) | 7 blwydd oed | 31 Awst | 1 Mai | Hydref |
| Ysol Uwchradd Autumn | 11 blwydd oed | 31 Awst | Hysbysir y rhieni or dyddiad | Hydref |
| Chweched Dosbarth (Blwyddyn 12) | 16 blwydd oed | 31 Awst | Trafod gyda'r ysgol | Hydref |

***Cofiwch gyflwyno eich cais erbyn y dyddiadau a nodwyd uchod.***

**Sut ydw i'n dewis ysgol ar gyfer fy mhlentyn?**

O fewn Ceredigion mae mwyafrif y rhieni yn anfon eu plentyn i'w hysgol leol. Yn draddodiadol, mae pob ysgol yn gwasanaethu rhyw ardal arbennig ac mae disgyblion yr ardal honno'n mynychu'r ysgol leol. Gall rhieni, fodd bynnag, fynegi eu ffafriaeth tuag at ysgol arall. Dylai rhieni ddarllen prosbectws yr ysgol neu wneud trefniadau gyda'r Prifathro/Prifathrawon i gael ymweld â'r ysgol(ion) cyn mynegi ffafriaeth.

**Gall rhieni fynegi ffafriaeth:**

- pan fydd eu plentyn yn dechrau'r ysgol yng nghyfnod y babanod;
- pan fydd eu plentyn yn trosglwyddo i'r ysgol iau;
- pan fydd eu plentyn yn trosglwyddo i ysgol uwchradd;
- neu ar unrhyw adeg yn ystod gyrfa ysgol y plentyn.

Dylai rhieni fynegi ffafriaeth tuag at fwy nag un ysgol. **Mae'n rhaid datgan y rhesymau yn ysgrifenedig**; os methir â gwneud hynny, gallai olygu y neilltuir lle i'ch plentyn mewn ysgol heblaw'r un a ffafriwyd gennych.

**A oes terfyn ar nifer y disgyblion y gall ysgolion eu derbyn?**

**Oes.** Mae'n rhaid i bob ysgol dderbyn disgyblion hyd at y lefel dderbyniad a gyhoeddwyd ganddynt.

Bydd y lefel dderbyniad yn adlewyrchu'r lle sydd yn yr ysgol a chlustnodir lle ar gyfer eich plentyn mewn ysgol oni bai ei bod yn llawn eisoes. Unwaith y bydd ysgol wedi cyrraedd ei lefel dderbyniad, mae'n rhaid iddi wrthod ceisiadau pellach. Dyrennir ceisiadau yn ôl meini prawf sefydledig (gweler isod).

**Pwy sy'n rheoli derbyniadau i ysgolion?**

**Mae derbyn plant i ysgolion yn cael ei reoli gan "Awdurdod Derbyniadau". Yn achos ysgolion cymunedol yng Ngheredigion, yr Awdurdod Derbyniadau yw Cyngor Sir Ceredigion (yr Awdurdod Addysg Lleol neu AALl)**. Yn achos Ysgol Wirfoddol Gymorthedig, yr Awdurdod Derbyniadau yw Corff Llywodraethol yr ysgol. (Ysgolion cynradd Llanwennog a Phadarn Sant).

**Beth os ceir nifer o geisiadau am le mewn ysgol benodol?**

Pan fydd mwy o blant am fynychu ysgol benodol nag sydd yna o leoedd, yna cymerir y ffactorau a ganlyn i ystyriaeth - yn nhrefn blaenoriaeth:-

1. y ffafriaeth ysgrifenedig a'r rhesymau a fynegwyd gan y rhieni;
2. nifer y disgyblion a all gael eu derbyn i'r ysgol;
3. yr ardal ddaearyddol a wasanaethir fel rheol gan ysgol;
4. disgyblion sy'n derbyn gofal;
5. rhesymau meddygol a chymdeithasol penodol sy'n berthnasol i'r darpar ddisgybl;
6. cysylltidau brodyr a chwiorydd.

Pan fydd mwy nag un plentyn yn cwrdd â'r meini prawf hyn a bod ymgeiswyr yn parhau, yna derbynnir y plentyn sy'n byw agosaf at yr ysgol.

**A oes rhaid i'r Awdurdod Addysg ddarparu lle ar gyfer pob plentyn sy'n dymuno mynychu rhyw ysgol arbennig?**

**Nac oes.** Rhaid i'r Awdurdod Derbyniadau fodloni'r blaenoriaeth os oes modd, ond bydd rhai ffactorau arbennig yn cael eu cymryd i ystyriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- defnydd effeithlon ar adnoddau ac adeiladau
- cymeriad ysgol (crefyddol fel rheol)

Mae'n bosibl na fydd rhieni yn llwyddo i gael lle yn eu dewis cyntaf o ysgol. Felly, mae'n bwysig deall mai dim ond oddi mewn i'r adnoddau sydd ar gael y gall yr Awdurdod Addysg roi mynediad i ddisgyblion.

**A allaf roi fy mhlentyn ar restr aros?**

**Na allwch.** Nid yw'r Awdurdod Addysg yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Awdurdod Derbyniadau yn caniatáu bod rhestrau aros yn cael eu sefydlu. Ystyrir pob cais ar yr amser priodol yn unol â'r meini prawf a osodwyd.

**A yw'r ysgol yn dewis ei disgyblion?**

**Nac ydyw.** Ni chaniateir i'r un ysgol ddewis disgyblion.

## ADDYSG FEITHRIN

**A yw hi'n bosibl i fy mhlentyn tair blwydd oed dderbyn addysg feithrin?**

Mae nifer o ddosbarthiadau meithrin penodol yn gysylltiedig ag Adrannau Babanod mewn ychydig o Ysgolion Cynradd (cyfeiriwch at y rhestr o ysgolion, os gwelwch yn dda). Yn anffodus, mae darpariaeth y cyfleusterau o fewn y sir yn annigonol i ganiatáu i'r holl blant 3 blwydd oed dderbyn addysg feithrin am ddim ac ar sail ran-amser oddi mewn i'r holl ysgolion cynradd. Fodd bynnag, nod y Cynulliad Cenedlaethol yw i bob plentyn dderbyn addysg am ddim ac ar sail ran-amser yn dilyn eu b/phen-blwydd yn 3 oed os dyna yw dymuniad eu rhieni. I'r perwyl hwn, mae Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar Ceredigion a Gofal Plant wedi gosod allan y meini prawf ar gyfer darparwyr y sector anghynaledig er mwyn cynnig y ddarpariaeth hon ar ran AALl Ceredigion. Gofynnwch i'ch cylch chwarae lleol/meithrinfa dydd am fanylion pellach.

## YMUNO Â DOSBARTH DERBYN MEWN YSGOL GYDA DOSBARTH/UNED FEITHRIN

**A oes rhaid imi wneud cais i drosglwyddo fy mhlentyn o Ddosbarth neu Uned Feithrin i Ddosbarth Derbyn o fewn yr un ysgol?**

**Oes.** Nid yw bod yn ddisgybl mewn dosbarth meithrin neu uned feithrin yn rhoi hawl awtomatig i'ch plentyn gael mynediad i ddosbarth derbyn o fewn yr un ysgol.

## YMUNO Â DOSBARTH DERBYN MEWN YSGOLION CYNRADD AR GYFER PLANT 4 OED

**Pryd gallaf i gyflwyno cais am le i fy mhlentyn mewn Ysgol Gynradd?**

Pan nad oes unrhyw ddosbarth neu uned feithrin ar gael, gellir derbyn plentyn y tymor ar ôl iddo/iddi gyrraedd 4 blwydd oed.

## YMUNO AG YSGOL IAU (TREF ABERTEIFI)

**A oes rhaid imi wneud cais i fy mhlentyn fynychu Ysgol Iau ar ôl gorffen mewn Ysgol y Babanod?**

**Oes.** Os ydych yn byw yn Aberteifi, mae Ysgol Fabanod ac Ysgol Iau ar gael. Bydd yn rhaid i chi wneud cais os bydd eich plentyn yn 7 mlwydd oed ar neu cyn Awst 31ain er mwyn trosglwyddo o'r Ysgol Fabanod i'r Ysgol Iau.

## YMUNO AG YSGOL UWCHRADD

**Pryd dylai fy mhlentyn ddechrau yn yr Ysgol Uwchradd?**

Fel rheol, bydd disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Uwchradd yn un ar ddeg oed. Bydd disgyblion sy'n cyrraedd un ar ddeg oed erbyn Awst 31ain yn trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r uwchradd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd h.y. Medi'r 1af.

Efallai y bydd rhai disgyblion yn cael trosglwyddo cyn 11 oed os bydd asesiad a wneir gan staff proffesiynol yn dangos fod gan y plentyn alluoedd meddyliol eithriadol a bod ei ddatblygiad ef neu hi yn gorfforol, yn emosiynol ac yn gymdeithasol yn addas ar gyfer dilyn cwrs addysg uwchradd.

**Sut ydw i'n dewis Ysgol Uwchradd ar gyfer fy mhlentyn?**

Yn ystod blwyddyn olaf eich plentyn yn yr ysgol gynradd, byddwch yn derbyn ffurflen oddi wrth y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol yn rhoi enw'r ysgol uwchradd y byddai'r Awdurdod yn disgwyl i'ch plentyn ei mynychu – fel rheol, yr ysgol uwchradd sydd agosaf at eich cartref fydd hon. Bydd angen i chi gadarnhau eich bod yn derbyn yr ysgol a enwir a rhoi rhesymau dros eich ffafriaeth i'ch plentyn gael mynychu'r ysgol a enwir.

**Faint o ysgolion uwchradd sydd yn y Sir?**

Mae 7 o ysgolion uwchradd yng Ngheredigion, yn amrywio o ran maint o tua 330 o ddisgyblion i 1400 o ddisgyblion. Mae dwy o'r ysgolion hyn, sef Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig ac Ysgol Gyfun Gymunedol Ddwyieithog Dyffryn Teifi, yn ysgolion dwyieithog penodedig, lle mae rhan fwyaf y pynciau yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**A allaf i ddewis Ysgol Uwchradd arall ar gyfer fy mhlentyn?**

Pe baech yn dymuno nodi blaenoriaeth am ysgol wahanol i'r un a enwir gan yr Awdurdod, dylech fynegi eich ffafriaeth drwy ddilyn y canllawiau priodol a chwblhau'r ffurflen a anfonir atoch gan roi rhesymau dros eich ffafriaeth.

Os nad yw'n bosibl i'r Awdurdod gydsynio â'r cais yna rhoddir manylion i chi ynghylch y ffordd i apelio yn erbyn y penderfyniad.

**Beth petawn i'n dymuno i fy mhlentyn fynychu Ysgol Gyfun Ddwyieithog Benodedig?**

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig, Aberystwyth ac Ysgol Gyfun Gymunedol Ddwyieithog Dyffryn Teifi, Llandysul yw'r ddwy ysgol gyfun sy'n darparu ar gyfer gofynion disgyblion sy'n dymuno parhau â'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Os hoffech roi ystyriaeth i'ch plentyn gael mynediad i ysgol gyfun ddwyieithog, dylech yn y lle cyntaf, roi gwybod i Brifathro neu Brifathrawes yr ysgol gynradd a fynychir gan eich plentyn. Os ydych yn byw yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu fel rheol gan un o'r ysgolion dwyieithog, fel y'i diffinnir gan yr AALl, cewch wybod pa gyfle sydd ar gael ar gyfer addysg o'r fath a chewch eich gwahodd i ddatgan eich ffafriaeth.

Os nad yw'n bosibl i ganiatáu i'ch plentyn gael mynediad i'r ysgol o'ch dewis, yna gellwch apelio yn erbyn y penderfyniad.

## YMUNO AG YSGOL HEBLAW'R YSGOL LEOL

**Beth petawn i'n dymuno i fy mhlentyn fynychu ysgol heblaw'r un sy'n gwasanaethu'r ardal yr ydym yn byw ynddi?**

Bydd yn rhaid i chi gyflwyno eich cais yn ysgrifenedig i brifathro neu brifathrawes yr ysgol sy'n derbyn eich blaenoriaeth ac, yn ogystal, i'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol gan roi eich rhesymau dros y cais.

Bydd yn rhaid ystyried eich cais os oes lle ar gael neu os oes nifer o blant am gael eu derbyn a'r lle yn gyfyngedig yna rhoddir ystyriaeth i'r meini prawf canlynol:

1. nifer y disgyblion a all gael eu derbyn i'r ysgol;
2. yr ardal ddaearyddol a wasanaethir fel rheol gan ysgol;
3. disgyblion sy'n derbyn gofal;
4. rhesymau meddygol a chymdeithasol penodol sy'n berthnasol i'r darpar ddisgybl;
5. cysylltidau brodyr a chwiorydd.

Pan fydd mwy nag un plentyn yn cwrdd â'r meini prawf hyn a bod ymgeiswyr yn parhau, yna derbynnir y plentyn sy'n byw agosaf at yr ysgol.

Bydd yr Awdurdod Addysg yn rhoi gwybod i chi os yw eich cais wedi cael ei ganiatáu ai peidio.

Pe bai eich cais yn cael ei ganiatáu mae angen i chi fod yn ymwybodol mai y chi **fel rhiant fydd yn gyfrifol am y trefniadau cludo ac am y costau cludo i ac o'r ysgol honno**.

### GWRTHODIAD AC APÊL

**Beth os caiff fy nghais ei wrthod?**

Os gwrthodir eich cais yna gallwch apelio yn erbyn y penderfyniad. Mae'r Awdurdod Addysg wedi sefydlu Panel Apêl Annibynnol i ystyried apeliadau rhieni pan wrthodir eu cais am ysgol a dderbyniodd eu ffafriaeth. Fel rheol, cynhelir Paneli Apêl yn y dirgel ond caiff rhieni y cyfle i gyflwyno'u hachos naill ai'n uniongyrchol neu gyda chymorth eu cynrychiolydd dewisedig.

**D.S. Nid oes apêl yn erbyn darpariaeth addysg feithrin anstatudol.**

**Beth sy'n digwydd os na chaiff fy mhlentyn ei dderbyn i'r ysgol o'm dewis?**

Dyna pam mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym i ba ysgol arall y byddech yn dymuno i'ch plentyn fynd rhag ofn nad oes digon o le yn yr ysgol yr ydych fwyaf ei eisiau i'ch plentyn fynychu.

### GWYBODAETH FYDD EI HANGEN AR YSGOLION

**Pa wybodaeth fydd yr ysgol eisiau oddi wrthyf fi?**

Efallai y gofynnir i chi am dystiolaeth o ddyddiad geni eich plentyn megis tystysgrif geni neu gerdyn meddygol. Yn ogystal, bydd yr ysgol am gael gwybod pwy sy'n dwyn y cyfrifoldeb rhieniol am y plentyn. Diben hyn yw sicrhau bod yr awdurdod priodol yn cael ei roi petai'r ysgol am gael caniatâd rhieni ar unrhyw adeg e.e. mewn achos brys. Yn ogystal, mae gan yr ysgol gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau bod personau sydd â chyfrifoldeb rhieniol yn derbyn adroddiadau ysgol ac yn cael cyfle i gymryd rhan yn addysg y plentyn.

## Yr hyn a wneir a'r wybodaeth bersonol hon

**Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n** defnyddio'r wybodaeth i wneud gwaith ymchwil, a hynny'n bennaf wrth edrych ar newidiadau i bolisiau addysg ac ariannu. Oherwydd y ffordd y caiff yr ymchwil ei chynnal, does dim modd adnabod disgyblion unigol. Cewch weld enghreifftiau o'r mathau o ystadegau a gynyrchir yn www.dysgu.cymru.gov.uk neu www.cymru.gov.uk/statistics

Mae'r **AALl** hefyd yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a gesglir i wneud gwaith ymchwil. Mae'n defnyddio canlyniadau'r ymchwil i wneud penderfyniadau ynghylch polisi ac ariannu ysgolion i asesu perfformaid ysgolion a'u helpu i osod targedau. Oherwydd y ffordd y caiff yr ymchwil ei chynnal, does dim modd adanabod disgyblion unigol.

Mae'r **Ysgol** yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i weinyddu'r addysg y mae'n ei darparu i ddisgyblion. Er enghraifft;

- darparu gwasanaethau addysgol i unigolion;
- monitro ac adrodd am gynnydd addysgol y disgyblion;
- darparu gwasanaethau lles, gofal bugeiliol a gwasanaethau iechyd;
- rhoi cefnogaeth ac arweiniad i ddisgyblion, rhieni a gwarcheidwaid cyfreithiol;
- trefnu digwyddiadau a theithiau addysgol;
- cynllunio a rheoli'r ysgol.

## Cyrff a allai rannu gwybodaeth bersonol

Gall yr Ysgol, yr AALl a'r Cynulliad Cenedlaethol rannu'r wybodaeth a gedwir am ddisgyblion, eu rhieni neu'u gwarcheidwad cyfreithiol gyda chyrff eraill pan fydd y gyfraith yn caniatáu hynny, er enghraifft:

- cyrff addysgol a chyrff hyfforddi eraill, gan gynnwys ysgolion, pan fydd disgyblion yn gwneud cais i fynd ar gyrsiau, i gael hyfforddiant, i drosglwyddo ysgol neu pan fydd yn gofyn am gyngor ar gyfleoedd;
- cyrff sy'n gwneud ymchwil i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yr AALl a'r ysgolion, cyn belled ag y cedwir y wybodaeth yn gyfrinachol;
- llywodraeth ganolog a lleol at ddiben cynllunio a darparu gwasanaethau addysgol;
- gwasanaethau cymdeithasol a mudiadau iechyd a lles eraill pan fo angen rhannu gwybodaeth er mwyn amddiffyn a chynorthwyo disgyblion unigol;
- gwahanol gyrff rheoleiddio, megis ombwdsmyn ac awdurdodau arolygu, lle bo'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid trosglwyddo'r wybodaeth honno er mwyn iddynt allu gwneud eu gwaith.

## Eich hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998

Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn rhoi rhai hawliau i unigolion o ran y wybodaeth bersonol a gedwir amdanynt gan unrhyw gorff. Ymhlith yr hawliau hyn mae:

- yr hawl i ofyn am weld a chael copiau o'r wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch chi, er y gellid weithiau gyfiawnhau atal peth gwybodaeth;

- yr hawl mewn rhai amgylchiadau i atal gwybodaeth bersonol rhag cael ei phrosesu os byddai hynny'n peri niwed neu boendod;
- yr hawl i ofyn am gael gywiro gwybodaeth sy'n anghywir;
- yr hawl i ofyn am iawndal os nad yw corff yn cadw at Ddeddf Diogelu Data 1998 a'ch bod chi'n dioddef niwed;
- mewn rhai achosion bydd gan riant neu warcheidwad cyfreithiol y disgybl hawl i dderbyn copi o ddata personol a gedwir am ddisgybl sy'n gyfreithiol dan eu gofal. Bydd achosion o'r fath yn cael eu hystyried yn unigol lle bernir nad oes gan yr unigolyn ddigon o ddealltwriaeth o'i hawliau o dan y Ddeddf.

Mae gennych hawl hefyd i ofyn i'r Comisynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn goruchwylio Deddf Diogelu Data 1998, asesu a yw prosesu gwybodaeth bersonol yn debygol o gadw at y Ddeddf.

# RHAN III: SUT Y CAIFF YSGOLION EU TREFNU A'R HYN A DDYSGIR I'R DISGYBLION - Y CWRICWLWM

## CYFFREDINOL

### ADDYSG GYNRADD

### Sut caiff Ysgolion Cynradd eu trefnu?

Caiff ysgolion cynradd yng Ngheredigion eu trefnu mewn dwy ffordd:

a) Ysgolion Babanod/Ysgolion Iau, gydag adrannau babanod a iau o dan un Prifathro neu Brifathrawes.

   Fel rheol, gelwir y rhain yn ysgolion cynradd. Yng Ngheredigion, mae 68 o ysgolion cynradd o'r fath yn darparu ar gyfer babanod a phlant iau o 4 hyd at 11 oed.

b) Ysgolion Babanod a Phlant Iau ar wahân gyda dau Brifathro neu ddwy Brifathrawes.

Yn nhref Aberteifi, mae un ysgol fabanod (i blant o 4 i 6+) ac un ysgol plant iau (ar gyfer plant o 7 i 11+). Mae'r ddwy ysgol ar yr un safle.

Mae 8 ysgol gynradd yn y sir gyda dosbarthiadau meithrin penodol yn gysylltiedig â hwy. (Mae'r llythyren 'N' ar y rhestr ysgolion yn dynodi ysgolion sydd â dosbarthiadau meithrin).

Mae tua hanner ysgolion cynradd yr awdurdod â 50 neu lai o ddisgyblion ar y gofrestr. Yn y mwyafrif o ysgolion, yr iaith Gymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol.

### Beth yw'r grwpiau blwyddyn ysgol o fewn ysgolion cynradd y Sir?

Yn dilyn trefn y Cwricwlwm Cenedlaethol dynodir y gwahanol grwpiau oed yn ôl blynyddoedd penodol – Derbyn, Blwyddyn 1, Blwyddyn 2 ac yn y blaen hyd at Blwyddyn 6. (Gweler tudalen 5)

Ar ôl iddynt ddathlu eu pen-blwydd yn 11 oed dylai'r disgyblion i gyd drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

### Beth a ddysgir i fy mhlentyn yn yr Ysgol Gynradd?

Mae'r holl ddisgyblion sydd o oed ysgol gorfodol ac sydd mewn ysgolion a gynhelir gan Awdurdod Addysg Ceredigion yn dilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol wedi ei drefnu ar sail pedwar Cyfnod Allweddol – Cyfnodau Allweddol 1 a 2 ar gyfer ysgolion cynradd a Chyfnodau Allweddol 3 a 4 ar gyfer ysgolion uwchradd.

Mae Cyfnod Allweddol 1 yn berthnasol i Flynyddoedd 1-2 ac i ddisgyblion 5-7 oed.

Mae Cyfnod Allweddol 2 yn berthnasol i Flynyddoedd 3-6 ac i ddisgyblion 7-11 oed.

Yn holl ysgolion Cymru mae'r pynciau canlynol wedi eu cynnwys yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ar lefel gynradd:

**Pynciau craidd** – Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cymraeg, Saesneg (heblaw am Gyfnod Allweddol 1 mewn dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg).

**Pynciau sylfaenol** – Daearyddiaeth, Celf, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol, Dylunio a Thechnoleg, Technoleg Gwybodaeth, Hanes.

Mae'r Rhaglenni Astudio yn dweud beth ddylid ei addysgu i ddisgyblion yn ystod pob Cyfnod Allweddol ac mae'r Targedau Cyrhaeddiad yn disgrifio'r safonau a ddisgwylir o ran dysgu'r disgyblion.

Pennwyd faint o amser sydd i'w neilltuo ar gyfer pob pwnc. Rhoddir mwy o amser addysgu i'r pynciau craidd nag i'r pynciau sylfaenol.

Yn ogystal, addysgir Addysg Grefyddol i'r disgyblion.

Mae gan ddisgyblion o dan bum mlwydd oed gwricwlwm gwahanol ac ar wahân i'w ddilyn. Mae eu cwricwlwm wedi ei seilio ar **'Y Canlyniadau a Ddymunir ar gyfer Dysgu Plant cyn Oed Ysgol Gorfodol'** ac mae'n canolbwyntio ar chwe maes dysgu, sef:

Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu

Datblygiad Personol a Chymdeithasol

Datblygiad Mathemategol

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Datblygiad Corfforol

Datblygiad Creadigol

**D.S.** Mae gwybodaeth am y cwricwlwm ym mhob ysgol wedi ei chynnwys ym mhrosbectws yr ysgol.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Phrifathro neu Brifathrawes eich ysgol leol, os gwelwch yn dda.

## ADDYSG UWCHRADD

### Beth a ddysgir i fy mhlentyn yn yr Ysgol Uwchradd?

Mae'r holl ddisgyblion o oed ysgol gorfodol sydd mewn ysgolion cynaledig yn dilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol wedi ei drefnu ar sail pedwar Cyfnod Allweddol (CA) – Cyfnodau Allweddol 1 a 2 ar gyfer ysgolion cynradd a Chyfnodau Allweddol 3 a 4 ar gyfer ysgolion uwchradd.

Mae Cyfnod Allweddol 3 yn berthnasol i Flynyddoedd 7-9 ac i ddisgyblion 11-14 oed.

Mae Cyfnod Allweddol 4 yn berthnasol i Flynyddoedd 10-11 ac i ddisgyblion 15-16 oed.

Yn holl ysgolion Cymru mae'r pynciau canlynol wedi eu cynnwys yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ar lefel Cyfnod Allweddol 3:

**Pynciau craidd** – Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cymraeg, Saesneg.

**Pynciau sylfaenol** – Daearyddiaeth, Celf, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol, Iaith Fodern, Addysg Grefyddol, Dylunio a Thechnoleg, Technoleg Gwybodaeth, Hanes.

Mae'r Rhaglenni Astudio yn dweud beth ddylid ei addysgu i ddisgyblion yn ystod pob Cyfnod Allweddol ac mae'r Targedau Cyrhaeddiad yn disgrifio'r safonau a ddisgwylir o ran dysgu'r disgyblion.

Pennwyd faint o amser sydd i'w neilltuo ar gyfer pob pwnc. Rhoddir mwy o amser addysgu i'r pynciau craidd nag i'r pynciau sylfaenol.

Yn ogystal, addysgir Addysg Grefyddol i'r disgyblion.

Yng Nghyfnod Allweddol 4 rhaid i'r disgyblion astudio'r pynciau Craidd a gallant ddewis o rychwant o bynciau ychwanegol hyd at lefel TGAU. Mae llawer o ysgolion yn cynnig cyrsiau niferus sy'n arwain at wahanol gymwysterau megis y Cymhwyster Galwedigaethol Cyffredinol Cenedlaethol (CGCC). Mae gan yr holl ysgolion y math o ddosbarthiadau lle mae Lefel A, CGCC a mathau eraill o gyrsiau yn cael eu cynnig. Mae'r disgyblion i gyd yn dilyn cyrsiau Addysg Grefyddol, Addysg Gorfforol ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn ychwanegol i'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae gwybodaeth am y cwricwlwm ym mhob ysgol wedi ei chynnwys ym mhrosbectws yr ysgol.

Pe bai gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Phrifathro neu Brifathrawes yr ysgol briodol, os gwelwch yn dda.

## PROFION AC ARHOLIADAU

Bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion y ddeddf. Rhaid i'r holl arholiadau y bydd disgyblion yn paratoi ar eu cyfer yn ystod amser ysgol dderbyn cymeradwyaeth Cyngor Arholi ac Asesu'r Ysgolion. Bydd yr Awdurdod yn rhoi enwau disgyblion i lawr ar gyfer arholiadau o'r fath ar ôl ymgynghoriad priodol â'r rhieni, ac yn unol ag argymhelliad yr ysgol. Mae'r amserlen ar gyfer mwyafrif yr arholiadau allanol hyn yn cael ei threfnu gan CBAC (Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru).

(Gweler Atodiad 1)

## IAITH Y DYSGU

### A oes rhaid i bob plentyn ddysgu Cymraeg a Saesneg?

Ar gyfer ysgolion yng Ngheredigion mae addysgu'r Gymraeg a'r Saesneg, naill ai fel iaith gyntaf neu fel ail iaith, yn un o'r **gofynion hanfodol sy'n adlewyrchu'r Cwricwlwm Cenedlaethol**.

Fodd bynnag, gellir paratoi darpariaeth arbennig ar gyfer y grwpiau canlynol:

i) disgyblion sydd wedi symud i mewn i'r ardal yn ddiweddar – bydd gwersi ychwanegol yn yr iaith Gymraeg yn cael eu darparu ar eu cyfer mewn canolfannau iaith cyfagos.

ii) disgyblion sydd wedi derbyn asesiad swyddogol eu bod yn dioddef o anawsterau dysgu a lle gallai cyflwyno ail iaith dramgwyddo datblygiad addysgol a lle mae derbyn eu haddysg trwy gyfrwng eu hiaith gyntaf yn hanfodol.

iii) disgyblion tramor sydd heb fod â'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf a lle gallai cyflwyno trydedd iaith dramgwyddo eu datblygiad addysgol a lle mae dysgu'r Saesneg yn hanfodol iddynt.

**Beth yw polisi'r Sir ynglŷn â dysgu Cymraeg a Saesneg o fewn ei hysgolion cynradd?**

Mae gan Awdurdod Addysg Ceredigion bolisi pendant ar addysgu Cymraeg a Saesneg yn ei ysgolion. Nod yr Awdurdod yw addysgu disgyblion i fod yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd. Felly, bydd y disgyblion yn darganfod eu bod yn gallu cymryd rhan lawn yn y gymuned ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

**Beth yw ystyr ysgol Categori 'A' ac ysgol Categori 'B'?**

Mae i rai rhannau o'r sir nodweddion diwylliannol a ieithyddol penodol sy'n rhaid eu cymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu polisi iaith effeithiol ar gyfer Ceredigion yn gyfan.

Gweithredwyd y polisi trwy greu dau gategori ar gyfer ysgolion:

**Ysgolion Categori A – yn yr Ardaloedd Traddodiadol Gymraeg eu Hiaith (lle mae mwyafrif yr ysgolion wedi eu lleoli). Yn ogystal, mae Yr Ysgol Gymraeg (Ysgol Benodol Gymraeg ei Chyfrwng) yn Aberystwyth a ffrydiau Iaith Gymraeg yr ysgolion cynradd mwyaf wedi'u cynnwys yn y categori hwn hefyd.**

Yn yr ysgolion/ffrydiau hyn, y Gymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith y dosbarthiadau meithrin a'r babanod. Diben hyn yw sicrhau bod sail gref i Gymraeg y disgyblion. Pan fyddant yn trosglwyddo o adran y babanod i adran y plant iau, bydd y Saesneg yn cael ei chyflwyno er mwyn i'r disgyblion gael cyfle i ddatblygu hyfedredd cyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd. Cymraeg, fodd bynnag, fydd yn para i fod yn brif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgolion/ffrydiau hyn.

**Ysgolion Categori B – yn yr ardaloedd llai Cymraeg, Ardaloedd Trefol a ffrydiau 'B' yr ysgolion cynradd mwyaf.**

Yn yr ysgolion/ffrydiau hyn dylid defnyddio'r Gymraeg yn gyfrwng bywyd a gwaith y dosbarthiadau meithrin a dosbarthiadau'r babanod gan osod sail felly ar gyfer para i ddatblygu dysgu'r Gymraeg yn yr adran iau. Dylai hyn sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu defnyddio fel cyfrwng cyfathrebu ym mywyd a gwaith y dosbarthiadau Iau.

**Beth yw'r egwyddorion ar gyfer addysgu Cymraeg a'r Saesneg o fewn Ysgolion Uwchradd y Sir?**

Mae'r Awdurdod Addysg yn ymwybodol o'r angen i sicrhau parhad rhwng yr ysgolion cynradd ac uwchradd o ran addysgu ieithoedd os yw'r Polisi Iaith i fod yn gwbl effeithiol.

Mae Cyrff Llywodraethol yr Ysgolion Uwchradd wedi sefydlu polisïau ar gyfer y ddarpariaeth Iaith er mwyn cwrdd â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol lle bydd disgwyl i ddisgyblion astudio'r Gymraeg fel pwnc hyd at 16 oed. Yn ogystal, mae nifer o ysgolion yn cwrdd â'r gofyn am gael addysgu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae manylion am bolisïau pob ysgol i'w cael yn y prosbectws unigol a gaiff ei baratoi gan bob un o'r ysgolion perthnasol.

## CREFYDD

**Beth yw'r sefyllfa ynglŷn â chrefydd mewn ysgolion?**

Yn ysgolion sir a rheoledig yr Awdurdod mae'r holl addysg grefyddol yn cael ei darparu'n unol â'r Maes Llafur Cytunedig sydd yn ofynnol dan y ddeddf. Er bod yn rhaid i Addysg Grefyddol fod yn anenwadol, caniateir addysgu ynghylch gwahaniaethau enwadol a rhaid darparu addysg grefyddol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Rhaid i bob ysgol gynnal defod o addoliad cynulleidfaol bob dydd. Mae Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAG) wedi paratoi cyngor ac arweiniad i'r ysgolion ar hyn.

Mae gan rieni hawl i dynnu eu plant o addysg grefyddol a gallant wneud hynny wedi iddynt roi gwybod yn ysgrifenedig i'r Corff Llywodraethol.

## CWYNION YNGLYN Â'R CWRICWLWM

**Beth ddylwn ei wneud os oes gennyf gwyn ynglŷn â'r cwricwlwm a materion perthynol?**

Os bydd gennych unrhyw ofidiau dylech eu trafod yn y lle cyntaf gyda'r Prifathro neu'r Brifathrawes.

Fodd bynnag, os byddwch yn dymuno troi'r achwyniad yn un ffurfiol, mae'r Awdurdod wedi sefydlu trefniadaethau ac mae copi o'r rhain ar gael yn yr ysgol neu yn yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol yn Swyddfa'r Sir yn Aberystwyth.

Lle bo hynny'n briodol, gall y sawl sy'n cyflwyno achwyniad ffurfiol osod eu cwynion gerbron Panel Apêl.

(Cysylltwch â'r Ysgol berthnasol neu'r Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol am wybodaeth bellach).

# RHAN IV: ANGHENION ADDYSG ARBENNIG (AAA) A GWASANAETHAU CYNHWYSIANT

### ANGHENION ADDYSG ARBENNIG (AAA)

**Pa ddarpariaethau y gall plentyn ag anghenion arbennig ei ddisgwyl yng Ngheredigion?**

Mae amrywiaeth o systemau cymorth ategol i'w cael ar gyfer plant ag AAA yn y sectorau cynradd ac uwchradd.

i) Bydd mwyafrif y plant yn derbyn cefnogaeth briodol yn eu hysgolion lleol yn y brif ffrwd. Yn dibynnu ar ddifrifoldeb yr angen gall hyn amrywio o gefnogaeth yr athro/athrawes dosbarth/pwnc hyd at Gynorthwywyr Dysgu Ategol a/neu gyfraniad athrawon arbenigol.

ii) **Unedau Arbennig.** Mae'r unedau hyn yn darparu ar gyfer plant ag anableddau dwysach ac maent wedi eu staffio gan staff addysgu a staff ategol profiadol sydd â chymwysterau arbenigol.

iii) Ar gyfer y nifer fechan iawn o blant sydd ag anghenion dwys a chymhleth, gellir rhoi ystyriaeth i leoliad oddi allan i'r sir.

Mae **Gwasanaeth Sensori** gan yr Awdurdod hefyd, sy'n cefnogi plant ag anawsterau clyw a/neu olwg.

Hefyd, mae **Tîm Plant Anabl amlasiantaeth** yn y Sir yn darparu cymorth a chefnogaeth i rieni plant cyn oed ysgol a phlant ysgol sydd ag anableddau.

**Sut caiff anghenion disgyblion ag AAA eu canfod a'u hasesu a sut y darperir ar eu cyfer?**

Mae'n bwysig canfod anghenion plant sydd ag AAA mor gynnar ag sydd bosibl.

Fel rheol, bydd plant o dan oed ysgol a all fod ag AAA yn cael eu cyfeirio i'r Awdurdod Addysg trwy gyfrwng Ymddiriedolaethau y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol, y Tîm Anabledd neu Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol er y gellir eu hatgyfeirio gan y rhieni eu hunain. Gall anghenion y plant gael eu hasesu gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a/neu asiantaethau eraill ac o ganlyniad i hyn bydd darpariaeth briodol yn cael ei gwneud ar gyfer y plentyn ar ôl trafodaeth lawn gyda'r rhieni.

Byddai plentyn sydd eisoes yn yr ysgol yn cael ei anghenion addysg arbennig wedi eu canfod gan y staff addysgu trwy gyfrwng arsylwi a chofnodi manwl neu gan weithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â'r plentyn.

**Mae'r Côd Ymarfer AAA ar gyfer Cymru** yn darparu cyngor ymarferol i awdurdodau addysg lleol, ysgolion cynaledig, gosodiadau'r blynyddoedd cynnar ac i eraill sy'n ymgymryd â'u dyletswyddau statudol i ganfod, asesu a darparu ar gyfer anghenion addysg arbennig y plant.

Dyma'r egwyddorion cyffredinol:

- dylid darparu ar gyfer pob plentyn ag anghenion addysg arbennig;
- byddir yn cwrdd ag anghenion addysg arbennig y plant o fewn ysgolion prif ffrwd fel arfer;
- dylid canfod sylwadau'r plentyn a chymryd ystyriaeth o hynny;
- mae gan rieni ran hanfodol i'w chwarae wrth gefnogi addysg eu plant;
- dylai plant ag anghenion addysg arbennig gael mynediad llawn i addysg eang, cytbwys a pherthnasol.

**Beth os bydd angen cefnogaeth a chyngor arnaf ynglŷn â darpariaeth AAA fy mhlentyn?**

Yn y lle cyntaf, dylech gysylltu â'r Pennaeth a/neu'r Cydgysylltydd Anghenion Addysg Arbennig yn ysgol eich plentyn. Os na ddatrysir eich pryderon ar y lefel hon, gall yr AALl drefnu eich bod yn defnyddio'r Gwasanaeth Partneriaeth â Rhieni SNAP (Prosiect Anghenion Arbennig Ymgyghorol) a'r Gwasanaeth Anghydfod.

Ni effeithir ar eich hawl i apelio at Dribiwnlys AAA Cymru os defnyddiwch y gwasanaeth uchod.

**Beth os bydd rhaid i fy mhlentyn ag anghenion arbennig deithio i ysgol heblaw'r un lleol?**

Pan fydd yr AALl yn enwi ysgol yn natganiad plentyn, a'i bod yn wahanol i'r un sy'n gwasanaethu'r ardal lle rydych chi'n byw, yr AALl sy'n gyfrifol am ddarparu cludiant. Gall yr AALl enwi'r ysgol a ffafrir gan rieni'r plentyn cyhyd â bod y rhieni'n cwrdd â'r costau trafnidiaeth.

**Ble gallaf i gael gwybodaeth bellach ynglŷn ag AAA?**

Gellir cael gwybodaeth bellach oddi wrth y **Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol, Swyddfa'r Sir, Glan-y-Môr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2DE.**

## DARPARIAETHAU ERAILL

**Os derbynnir fy mhlentyn i ysbyty pa gyfleusterau addysg a ddarperir ar ei gyfer yno?**

Bydd darpariaeth addysgol ar gael mewn ysbytai pan fydd plant yn mynd i mewn am driniaeth ac yn gorfod aros yno am fwy nag ychydig ddyddiau efallai. Mae gwasanaeth addysg yr ysbytai yn cynnal cysylltiad clòs ag ysgol arferol y plentyn er mwyn sicrhau bod dilyniant yn yr addysg.

**A oes unrhyw achlysur pryd y mae'r Awdurdod yn darparu addysg gartref?**

Darperir addysg ar yr aelwyd i rai plant, megis y rhai sydd gartref yn gwella ar ôl arhosiad yn yr ysbyty, neu sydd â phroblemau meddygol ac sy'n methu mynychu'r ysgol dros dro.

Pe bai yna deimlad bod angen addysg ar yr aelwyd, bydd Prifathro neu Brifathrawes y plentyn, neu'r Swyddog Cynhwysiant Addysg (SCA) yr ardal, yn anfon cais at y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol.

## SWYDDOGION CYNHWYSIANT ADDYSG

**Beth yw swyddogaeth y Swyddog Cynhwysiant Addysg?**

Caiff Ceredigion ei wasanaethu gan dîm o Swyddogion Cynhwysiant Addysg (SCA) sy'n darparu dolen gyswllt rhwng yr ysgol, yr Adran Addysg, teuluoedd y disgyblion a'r plant/pobl ifanc.

Mae eu swyddogaeth yn gwbl wahanol i athrawon a'u bwriad yw sicrhau bod plant yn cael cymorth i elwa'n llawn ar eu haddysg. Bydd rhan fwyaf eu gwaith yn dod o'r ysgolion ond gallwch siarad â Swyddog Cynhwysiant Addysg ar unrhyw adeg pan fyddwch eisiau cyngor ynghylch:

- Addysg eich plentyn/presenoldeb eich plentyn yn yr ysgol
- Newid ysgolion
- Cyflogaeth plant (hynny yw, pan fydd swydd gan eich plentyn)
- Perfformio (hynny yw, pan fydd eich plentyn yn cymryd rhan mewn ffilmiau, dramâu, pantomeim a.y.b. yn ystod oriau ysgol)
- Mynediad cyn oed ysgol
- Salwch eich plentyn
- Gwasanaethau cefnogol eraill

Mae SCA yn gwneud gwaith mewn Llysoedd Barn dros yr Awdurdod Addysg Lleol hefyd. Ar ôl cofrestru yn un o ysgolion y wladwriaeth mae'r rhiant wedi ymrwymo ei hunan i'r gyfraith o

safbwynt presenoldeb yn yr ysgol ac felly os bydd yn methu â sicrhau presenoldeb da, mae'n eithaf tebyg y bydd y SCA yn dwyn achos gerbron Llys yr Ynadon, a allai arwain at osod dirwy hyd at fwyafswm o £1,000.

Mae SCA yn gyfrifol hefyd am wneud cais yn y Llys Achosion Teuluol am Orchmynion Goruchwylio Addysg. Mae taflen sy'n egluro ystyr hyn ar gael o'r Adran Addysg. Ffoniwch am gopi (Rhif ffôn: 01970 633634).

Mae SCA hefyd yn gyfrifol am gyd-drefnu'r cwriciwlwm amgen yng CA4. Mae'r fenter hon yn caniatáu i rai plant Blwyddyn 10 ac 11 gael cyfle i gymryd rhan mewn profiad gwaith, hyfforddiant a phrosiectau yn ystod amser ysgol. Bydd yr ysgol yn cyfeirio'r disgyblion i'r cynllun os teimlant y byddai o fudd i'r disgybl.

Mae'r SCA hefyd yn monitro cynnydd addysgol y Plant sy'n Derbyn Gofal ac sydd o dan ofal yr Awdurdod Lleol.

Mae'r SCA hefyd yn cynrychioli'r Adran Addysg ar 'Dîm Troseddwyr Ifainc Ceredigion'.

## RHAN V: GWYBODAETH ARALL A ALL FOD O DDEFNYDD

### COFNODION

**A oes cofnodion yn cael eu cadw am fy mhlentyn?**

**Oes.** Mae pob ysgol a'r Awdurdod Addysg yn cadw cofnodion am bob plentyn yn yr ysgol. Bydd y rhain yn cynnwys gwybodaeth bersonol megis cyfeiriadau, enwau'r rhieni, y meddyg teulu, a lle i gysylltu pe bai angen. Yn ogystal, mae ysgolion yn cadw cofnodion o gyrhaeddiad disgyblion ym mhob maes o'r cwricwlwm. Byddwch yn derbyn adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn ysgol, yn rhoi gwybodaeth i chi am ddatblygiad cyffredinol eich plentyn a'i gynnydd ym mhob pwnc.

### AFIECHYD

**Beth os yw fy mhlentyn yn sâl ac yn methu â mynd i'r ysgol?**

Pe bai eich plentyn yn sâl, hyd yn oed am ddim ond un diwrnod, dylech geisio rhoi gwybod i'r ysgol ar unwaith. Gallwch egluro'r amgylchiadau i'r athro neu'r athrawes pan fydd eich plentyn yn dychwelyd i'r ysgol. Pe bai eich plentyn yn sâl am gyfnod hwy o amser yna dylech ffonio neu ysgrifennu at yr ysgol yn egluro absenoldeb eich plentyn. Mae'n bwysig fod plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Os yw'r ysgol yn credu bod plentyn yn absennol heb reswm da mae'n bosibl y bydd yn gofyn i Swyddog Cynhwysiant Addysg alw a thrafod y sefyllfa gyda'r rhieni.

### GWYLIAU YN YSTOD ADEG TYMOR

**A allaf i gymryd fy mhlentyn ar wyliau adeg tymor?**

Nid oes gan rieni'r hawl otomatig i dynnu'u disgyblion o'r ysgol am wyliau ac, yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid iddynt wneud cais am ganiatâd ymlaen llaw. Dim ond y Pennaeth sydd â'r hawl i ddewis a ddylid rhoi'r cyfryw ganiatâd. Mae'r AALl yn annog disgyblion i beidio â chymryd eu gwyliau adeg tymor gan y byddai gweithredu o'r fath yn niweidio'u dilyniant dysgu.

## PRYDAU A LLAETH YSGOL

### A oes prydau ar gael ymhob ysgol?

**Oes**. Gall eich plentyn brynu cinio yn yr ysgol. Fodd bynnag, os oes gan eich plentyn unrhyw ofynion meddygol o safbwynt diet, dylech drafod y mater gyda'r prifathro neu'r brifathrawes er mwyn i'r plentyn gael prydau bwyd addas. Efallai y bydd plant yn dymuno dod â chinio parod o'r tŷ. Os felly, byddant yn cael ei fwyta yn yr ysgol a byddant yn cael eu goruchwylio.

### A allaf i gael prydau ysgol am ddim ar gyfer fy mhlentyn?

Os ydych yn derbyn Ategiad Incwm, Lwfans Chwilio am Waith (ar sail incwm) neu Gredyd Treth Plant (cyn belled â'ch bod ddim yn cael Credyd Treth Gwaith a bod gennych incwm trethadwy blynyddol, fel y'i asesir gan Gyllid a Thollau EM, sy'n llai na £14,495 [bydd cyfradd newydd yn weithredol o Ebrill 2008] a bod eich plentyn yn mynychu ysgol yng Ngheredigion ar sail amser llawn, gallwch hawlio ciniawau am ddim ar gyfer eich plentyn. Gallwch ofyn am ffurflen gais yn eich ysgol neu gallwch gysylltu â'r Tîm Grantiau, Taliadau a Chyflogau yn yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol, Swyddfa'r Sir, Glan-y-Môr, Aberystwyth SY23 2DE (rhif ffôn: 01970 633632 neu e-bost: rhodrib@ceredigion.gov.uk)

### A yw disgyblion yn cael llaeth am ddim yn yr ysgol?

Yn unol â Rheoliad Bwydydd Lles 1988 mae'r Awdurdod yn darparu llaeth am ddim i ddisgyblion o dan bump oed. Hefyd, mae'r Awdurdod yn darparu llaeth ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 1 (Blwyddyn 1 a 2) yn unol â chynllun y Cynulliad Cenedlaethol. Mae plant sy'n mynychu unedau anghenion arbennig y Sir yn cael llaeth am ddim hefyd.

## GRANTIAU GWISG YSGOL A GRANTIAU CYNHALIAETH

### A allaf wneud cais am grant ar gyfer gwisg ysgol?

**Gallwch**. Os yw'ch plentyn yn dechrau ym Mlwyddyn 7 ac yn derbyn Prydau Bwyd am Ddim ar adeg eich cais byddwch yn teilyngu Grant Gwisg Ysgol a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Derbynnir ceisiadau o 1af Gorffennaf gyda dyddiad cau o 31ain Hydref bob blwyddyn. Estynnir y dyddiad cau i 31ain Ionawr i deuluoedd sy'n symud i mewn i Geredigion o du allan i Gymru.

Anfonir talebau fel cyfraniad tuag at gostau eitemau o wisg ysgol sy'n dderbyniol i gorff llywodraethol yr ysgol.

### A allaf wneud cais am lwfans cynhaliaeth?

Lwfans cymhelliant yw Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA) sy'n cael eu dalu i bobl ifanc gymwys sy'n aros yn yr ysgol neu'r coleg ar ôl oedran gadael ysgol, gan fynychu'n rheolaidd a chyflawni nodau dysgu.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sylweddoli bod angen cymorth ac anogaeth ychwanegol ar rai pobl ifanc o gartrefi ag incwm isel er mwyn iddynt barhau mewn addysg ar ôl oedran gadael ysgol a gwneud y gorau o'u cyfleoedd dysgu a datblygu.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'ch ysgol uwchradd neu chwiliwch am 'EMA' yn y wefan: www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk.

## EIDDO PERSONOL

**Beth os cymer fy mhlentyn eiddo personol i'r ysgol?**

Y disgyblion eu hunain sy'n gyfrifol am ddiogelwch eu pethau personol. Mae angen i rieni fod yn ymwybodol o bolisi'r ysgol unigol ynglŷn â defnyddio ffôn symudol ar safle'r ysgol.

## CODI TÂL AR ADDYSG

**A fydd rhaid imi dalu am addysg fy mhlentyn?**

**Na fydd**. Mae ysgolion y wladwriaeth i gyd yn rhad i bob plentyn. Bydd yr ysgol yn darparu'r offer angenrheidiol am ddim, gan gynnwys llyfrau, papur, pinnau ysgrifennu a phensiliau.

Efallai y gofynnir i chi'n achlysurol i wneud cyfraniad gwirfoddol tuag at rai o weithgareddau'r ysgol sy'n digwydd yn ystod oriau ysgol.

(Gwelwch Atodiad 2 am ragor o fanylion)

## CYNGOR GYRFAOEDD

**A yw disgyblion yn cael cynnig unrhyw gyngor ar y gyrfaoedd a allai fod yn bosibl?**

**Ydynt**. Mae Gyrfaoedd Cymru yn cynnig y gwasanaeth trwy gyfrwng yr ysgolion uwchradd.

(Gwelwch Atodiad 4 am fanylion)

## DYDDIAD GADAEL YSGOL

**Pryd caniateir i ddisgyblion adael ysgol?**

Pan fydd eich plentyn yn cyrraedd 16 oed yn ystod blwyddyn ysgol, gall ef/hi adael ysgol ar y dydd Gwener olaf ym Mehefin.

## CLUDIANT

**A ddarperir cludiant ysgol am ddim i bob plentyn?**

**Na**. Mae'r Awdurdod Addysg Lleol yn darparu cludiant ysgol am ddim ar gyfer plant o oed ysgol statudol ar y sail ganlynol:

- i) disgyblion dan wyth mlwydd oed sy'n byw dros ddwy filltir o'r ysgol gynradd briodol agosaf;
- ii) disgyblion dros wyth mlwydd oed sy'n byw dros dair milltir o'r ysgol gynradd briodol agosaf.

Ceir nifer o amgylchiadau dewisol lle gellir darparu cludiant.

(Cyfeiriwch at Atodiad 3 am ragor o fanylion)

## CRONFEYDD YMDDIRIEDOLAETH

**A all fy mhlentyn elwa ar gefnogaeth ariannol arall oddi wrth y Sir?**

Gweinyddir nifer o gronfeydd ymddiriedolaeth elusennol gan yr Awdurdod Addysg sy'n cynnig cymorth i rai disgyblion a chyn-ddisgyblion sy'n mynychu cyrsiau mewn sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch. Sefydlwyd y mwyafrif o'r rhain i gynorthwyo disgyblion sy'n mynychu ysgolion uwchradd penodol o fewn y Sir. Dylid ymholi ynglŷn â'r rhain yn gyntaf gyda phrifathro neu brifathrawes yr ysgol mae eich plentyn yn mynychu.

Gweinyddir yr Ymddiriedolaeth Addysgol i Goffáu Coe a Chronfa Addysg Ganolradd a Thechnoleg Ceredigion gan Dîm Grantiau, Taliadau a Chyflogau yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol, Swyddfa'r Sir, Aberystwyth SY23 2DE (rhif ffôn: 01970 633569 neu e-bost: lindajon@ceredigion.gov.uk). Cynigir cymorth ariannol tuag at y gost o fynychu Colegau neu Brifysgolion; prynu offer ac ati ar gyfer dechrau ar broffesiwn, crefft neu alwad; astudio cerddoriaeth neu gelfyddyd arall, neu deithio yn y wlad hon neu dramor i barhau â'ch haddysg. Gwahoddir ceisiadau am y cronfeydd ymddiriedolaeth hyn yn y wasg leol ar ddechrau mis Medi bob blwyddyn. Rhaid i'r ymgeiswyr fod yn gyn-ddisgyblion neu'n ddisgyblion presennol mewn Ysgol Uwchradd neu sefydliad Addysg Bellach yng Ngheredigion am o leiaf 2 flynedd.

# *ATODIADAU*

## ATODIAD 1

## DATGANIAD AR ARHOLIADAU CYHOEDDUS

Byddai'r Awdurdod Addysg yn cefnogi polisi y Corff Llywodraethol a fyddai'n sicrhau bod pob disgybl cofrestredig yn yr ysgol, ar adeg briodol yn eu barn hwy, yn sefyll arholiad cyhoeddus penodedig ymhob maes llafur y paratoir ef ar ei gyfer yn yr Ysgol ar yr adeg dan sylw.

Nid oes gofyn i'r Corff Llywodraethol sicrhau bod disgybl yn sefyll arholiad, neu arholiad mewn unrhyw faes llafur ar gyfer yr arholiad hwnnw os yw naill ai:-

(a) y Corff Llywodraethol yn ystyried bod yna resymau addysgol yn achos y disgybl arbennig hwnnw am beidio â sefyll yr arholiad hwnnw neu (yn ôl yr achos) am beidio â sefyll yr arholiad hwnnw yn y maes llafur hwnnw, neu

(b) rhiant y disgybl yn gwneud cais ysgrifenedig am i'r disgybl beidio â sefyll yr arholiad hwnnw neu (yn ôl yr achos) yr arholiad hwnnw yn y maes llafur hwnnw.

Nid oes gofyn i'r Corff Llywodraethol sicrhau bod disgybl yn sefyll unrhyw arholiad mewn unrhyw faes llafur ar gyfer yr arholiad hwnnw os yw'r Corff Llywodraethol wedi sicrhau bod y disgybl hwnnw yn sefyll arholiad cyhoeddus penodedig arall mewn maes llafur cyfatebol.

Gellir cael rhagor o wybodaeth o'r ysgol.

## ATODIAD 2

## CODI TÂL AM WEITHGAREDDAU YSGOL

Mae'r Ddeddf Diwygio Addysg 1988 a ddaeth i rym o 1 Ebrill, 1989 (ac a ddiwygiwyd mewn Deddfau Addysg dilynol) yn darparu ar gyfer codi tâl am weithgareddau ysgol gyda'r amcanion canlynol:-

- cynnal hawl pob plentyn i gael addysg rad ac am ddim;
- sefydlu bod gweithgareddau a gynigir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn ystod oriau arferol yr ysgol, ar gael i bob plentyn ni waeth beth yw gallu neu barodrwydd y rhieni i helpu i gyfarfod â'r gost;
- pwysleisio nad oes gofynion statudol i godi tâl am unrhyw ffurf o addysg neu weithgaredd perthynol, ond i roi'r hawl i Awdurdodau Lleol ac i ysgolion godi tâl am weithgareddau dewisol a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf y tu allan i oriau ysgol;
- cadarnhau hawl yr Awdurdodau Addysg Lleol ac ysgolion i wahodd cyfraniadau gwirfoddol er budd yr ysgol, neu i gefnogi unrhyw weithgaredd a drefnir gan yr ysgol, naill ai yn ystod neu y tu allan i oriau ysgol.

Mae'r amgylchiadau lle caniateir codi tâl yn cael eu rhannu i bedwar categori, er bod eithriadau ym mhob categori lle na chaniateir codi tâl. Y categorïau hynny yw:-

(i) Gwersi Offerynnol i Unigolion:

Mae Deddf Addysg 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddfau dilynol) yn caniatáu codi tâl am Wersi Offerynnol mewn sefyllfaoedd penodol. (Rhaid darparu gwersi yn ddi-dâl lle maent yn rhan o'r maes llafur ar gyfer arholiad cyhoeddus penodedig);

(ii) Llety;

(iii) Addysg y tu allan i Oriau Ysgol (Gwersi Ychwanegol Dewisol);

(iv) Adennill Costau Arholiad:

Pan fo plentyn yn sefyll arholiad nad yw'r ysgol wedi'i baratoi ar ei gyfer, e.e. wedi derbyn gwersi preifat, neu pan fo plentyn yn ailsefyll arholiad ac na roddwyd unrhyw wersi ychwanegol ar ei gyfer ers yr arholiad cyntaf, gellir codi'r tâl hwn ar y rhieni.

Os yw plentyn yn methu â chyflawni gofynion arholiad cyhoeddus (penodedig neu fel arall) heb reswm da (fel y'i diffiniwyd gan ba gorff bynnag a dalodd y ffi), gall yr Awdurdod Addysg Lleol neu'r Corff Llywodraethol adennill unrhyw ffi a dalwyd oddi wrth y rhieni.

Yn ôl y Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddfau dilynol), mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethol lunio'u polisïau eu hunain yngly^n â threfniadau talu a rhyddhad rhag talu. Ni all y polisïau codi tâl a bennir gan y Llywodraethwyr fod yn llai ffafriol na pholisi'r Awdurdod Addysg. Os oes angen rhagor o wybodaeth, gellir cael copi o'r ddogfen bolisi gan y Prifathro/Brifathrawes neu'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol.

**ATODIAD 3**

**DATGANIAD AR GLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL/COLEG**

**1. DISGYBLION**

Mae ymrwymiad yr AALl i ddarparu cludiant am ddim i hyrwyddo presenoldeb disgyblion mewn ysgol yn seiliedig ar Adran 509 y Ddeddf Addysg 1996.

(a) Yn gyffredinol, cyfyngir cludiant am ddim i ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol a ddynodir gan yr AALl fel yr un sy'n gwasanaethu'r ardal lle maent yn byw, ac i ddisgyblion sy'n preswylio o fewn y pellter angenrheidiol i'r ysgol.

Dyma'r pellteroedd perthnasol:

O DAN 8 MLWYDD OED – os yn byw 2 filltir neu fwy o'r Ysgol.

8 MLWYDD OED NEU'N HŶN – os yn byw 3 milltir neu fwy o'r Ysgol

Mesurir pellteroedd gan y daith gerdded byrraf rhwng y cartref a'r ysgol.

(b) Gellir cynnig cymorth i ddisgyblion mewn rhai sefyllfaoedd ar sail:-

- Diogelwch;
- Cyflwr meddygol;
- Datganiad o Anghenion Arbennig;
- Symud cartref yn ystod y flwyddyn arholiadol olaf;
- Na ellir parhau â chwrs astudiaeth uwch yn yr ysgol benodol;
- Ymrwymiadau crefyddol: Yng ngoleuni gofynion y Ddeddf Addysg 1993, cynghorir rhieni i gysylltu â'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol i gael gwybodaeth ychwanegol cyn iddynt ddewis ysgol ar

y sail fod natur yr addysg grefyddol a ddarperir yno yr un fath â'u crefydd neu'u henwad eu hunain.

(c) Os nad yw disgyblion yn teilyngu 'cludiant am ddim' fel y'i diffinnir yn a) a b) gallent gael caniatâd, yn dilyn cais ysgrifenedig i'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol, i deithio mewn cerbydau a gontractwyd i'r Awdurdod Addysg Lleol, os oes llefydd sbâr ar gael.

**GELLIR ATAL Y CONSESIWN HWN AR UNRHYW ADEG (E.E. PAN FO'R CERBYD YN ORLAWN) PAN FYDDAI'R CYFRIFOLDEB AM GLUDIANT YN SYRTHIO UNWAITH ETO AR YSGWYDDAU'R RHIANT.**

## 2. MYFYRWYR ADDYSG BELLACH

Cynigir cymorth i unigolion o 16 i 19 oed sy'n mynychu Coleg yn ôl y modd mwyaf economaidd ar sail gyffelyb i fyfyrwyr 16+ sy'n mynychu Ysgolion Uwchradd. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol.

## 3. CYFFREDINOL

3.1 Er mwyn sicrhau bod y nifer a gludir ar gerbydau yn cydymffurfio â gofynion statudol bydd pob disgybl yn derbyn 'tocyn teithio' sy'n nodi'r cerbyd y maent yn teithio arno.

Er bod peth hyblygrwydd ar ddechrau Tymor yr Hydref, yn gyffredinol ni fydd disgyblion nad ydynt yn medru dangos tocyn priodol yn cael eu cludo gan y contractwr. [Mae'n bwysig felly os yw rhiant yn credu bod ei blentyn/phlentyn yn gymwys i dderbyn "cludiant am ddim" ei fod yn danfon ffurflen gais i'r swyddfa addysg a gwasanaethau cymunedol **erbyn 1af Chwefror, 2008 fan pellaf**.]

3.2 Bydd mwyafrif y disgyblion sy'n hawlio cymorth yn cael eu cludo mewn cerbydau sydd wedi'u contractio'n arbennig i'r Awdurdod Addysg Lleol, ond o bryd i'w gilydd defnyddir trafnidiaeth gyhoeddus neu cyflwynir lwfans teithio penodol i rieni/disgyblion sy'n defnyddio'u cerbydau eu hunain.

3.3 Ceir llyfryn gwybodaeth oddi wrth yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol yn cynnig cyngor a chanllawiau i ddisgyblion/myfyrwyr a rhieni ynglŷn â'r hyn y gellir ei wneud er mwyn sicrhau y teithir yn ôl ac ymlaen i'r ysgol/coleg yn ddiogel.

3.4 Lle defnyddir cerbydau dan gontract neu drafnidiaeth gyhoeddus, yna nid yw'n bosibl bob tro i drefnu bod cerbydau yn mynd heibio'n agos i gartrefi pob disgybl. Felly, bydd yn angenrheidiol i rieni wneud trefniadau i'w plant fynd a dod o'r man casglu agosaf ar gyfer y cerbyd. Gwneir pob ymdrech i gadw'r pellter hwn mor fyr â phosibl ac ni ddylai fod yn fwy na 1.5 milltir. YN YR ACHOSION HYN, GOFYNNIR AM GYMORTH Y RHIENI I HEBRWNG DISGYBLION YN DDIOGEL I'R CERBYDAU AC YN ÔL.

3.5 Gofynnir i rieni nodi y gallent apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â darparu cludiant am ddim. Dylid cyflwyno'r apêl ynghyd ag unrhyw dystiolaeth gefnogol i'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol o fewn 28 diwrnod o gael eich hysbysu o'r penderfyniad gwreiddiol.

## ATODIAD 4

## Y GWASANAETH GYRFAOEDD

Mae Gyrfaoedd Cymru yn anelu at helpu pobl ifanc i wneud y penderfyniadau anodd hynny ynglŷn â'u dyfodol. Mae ganddo wybodaeth arbenigol gyfoes am addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac fel arfer fe welir disgyblion gan Swyddogion Gyrfaoedd yn yr Ysgol o Flwyddyn 9 (gynt 3edd flwyddyn) yr Ysgol Uwchradd ymlaen, i'w cynorthwyo i gynllunio eu dyfodol drwy:-

- cynghori ynglŷn â pha bynciau i'w hastudio ac arwyddocâd eu penderfyniad;
- rhoi cymorth iddynt lunio cynllun gweithredu ar gyfer cynnydd mewn addysg a hyfforddiant;
- rhoi gwybodaeth ynglŷn â swyddi, gyrfaoedd, addysg bellach, addysg uwch a'r amryfal gyrsiau hyfforddi sydd ar gael;
- eu hysbysu am swyddi gwag, cyfleoedd hyfforddi a chyrsiau coleg, gofynion mynediad a cheisiadau;
- darparu cymorth arbenigol ar gyfer y rhai ag anableddau a hyrwyddo cydraddoldeb cyfle, beth bynnag y bo'r amgylchiadau.

Mae Gyrfaoedd Cymru yn ceisio sicrhau bod rhieni a gwarcheidwaid yn ymwybodol o'r holl wasanaethau sydd ar gael ac mae'n annog ymglymiad y rhieni drwy gydol y broses gyfarwyddyd. Er mwyn sicrhau ymglymiad rhieni, mae Gyrfaoedd Cymru yn cynnig gwasanaeth hyblyg sy'n ymateb i anghenion rhieni yn nhermau amser, lle a chyd-destun ac mae'n cynnwys trafodaeth unigol gyda rhieni mewn ysgolion, canolfannau gyrfaoedd neu mewn nosweithiau rhieni a digwyddiadau gyrfaoedd.

Gellir cysylltu â Swyddogion Gyrfaoedd drwy'r Ysgol.

## ATODIAD 5

## Y GWASANAETH ADDYSG GYMUNEDOL

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i ddysgu gydol oes. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cyfleoedd i holl bobl yr ardal i wella ansawdd bywyd. Mae'r gweithgareddau sydd ar gael wedi eu hanelu at gwrdd ag anghenion yr ifanc (drwy'r sectorau statudol a gwirfoddol) a'r sector oedolion.

Ceir dosbarthiadau yn ystod y dydd a chyda'r nos mewn nifer o sefydliadau addysgol ledled y Sir. Mae gwybodaeth bellach ar gael gan Swyddogion Addysg Gymunedol a seiliwyd yn yr Adran Addysg, Glan-y-Môr, Aberystwyth.

## ATODIAD 6

## CYRFF LLYWODRAETHOL YR YSGOLION

Ers 1 Medi, 1999 cafodd pob ysgol ei chorff llywodraethol ei hun ac maent yn cynnwys aelodau o'r gymuned leol, rhieni, athrawon a chynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg Lleol. Mae Cyrff Llywodraethol Ysgolion yr Eglwys (Gwirfoddol Gymorthedig a Gwirfoddol Reoledig) hefyd â chynrychiolwyr o awdurdod yr eglwys.

Pan ddaw lle gwag ar gyfer rhiant lywodraethwr, dosberthir gwybodaeth drwy law y plant, ac i fod yn gymwys ar gyfer cael eich enwebu yn rhiant lywodraethwr, mae'n rhaid i'ch plentyn fod wedi'i gofrestru mewn ysgol sy'n gyfrifoldeb i'r Corff Llywodraethol. Mae llywodraethwyr yn gwasanaethu am dymor o bedair blynedd, a gall rhiant lywodraethwr, os yw ef/hi yn dymuno, wasanaethu'r tymor yn llawn hyd yn oed os nad yw ei b/phlentyn ef/hi bellach yn ddisgybl yn yr ysgol.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Gyrff Llywodraethol gyfarfod o leiaf unwaith bob tymor, ond gallant gyfarfod mwy aml er mwyn trafod materion penodol.

Yn y blynyddoedd diweddar, mae cyfres o Ddeddfau Addysg wedi cynyddu swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Cyrff Llywodraethol yn sylweddol, yn ogystal â'u gwneud yn fwy atebol am eu gweithredoedd. Mae'r cyfrifoldeb o redeg yr ysgol o ddydd i ddydd yn dal yn ddyletswydd y Prifathro/Brifathrawes, ond y Cyrff Llywodraethol sydd â goruchwyliaeth gyffredinol dros yr ysgol, yn enwedig ynglŷn â materion yn ymwneud â'r cwricwlwm, disgyblaeth, cyllid a staffio.

Er mwyn cynorthwyo llywodraethwyr i gyflawni eu dyletswyddau, mae'r Awdurdod yn darparu cefnogaeth helaeth a rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant ar bob agwedd o gyfrifoldebau llywodraethwyr.

Gellir cael rhagor o wybodaeth ynglŷn â chyrff llywodraethol oddi wrth y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol.

**Cyfarfod Blynyddol y Llywodraethwyr a'r Rhieni**

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i Gyrff Llywodraethol baratoi adroddiad sy'n crynhoi'r hyn a weithredwyd ganddynt yn ystod y flwyddyn a aeth heibio wrth gyflawni'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Cyflwynir yr adroddiad hwn i rieni yng Nghyfarfod Blynyddol y Rhieni lle rhoddir cyfle iddynt drafod cynnwys yr adroddiad gyda'r Llywodraethwyr ac i ofyn unrhyw gwestiynau yngly^n â rhedeg yr ysgol. Os oes cworwm yn y cyfarfod, hynny yw, 20% o nifer y plant yn yr ysgol, gall y cyfarfod gynnig penderfyniadau ffurfiol i'w hystyried gan y Corff Llywodraethol